Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Ysgol Fusnes Wrecsam

# Uwch Ddarlithydd mewn Data Busnes ac Arloesi

# Pecyn yr Ymgeisydd 2026

# Rhagarweiniad gan Ddeon Ysgol Fusnes Wrecsam,

# Dr Ruth Slater

Rwyf wrth fy modd eich bod yn ystyried ymgeisio am y swydd gyffrous hon gyda ni yma yn Ysgol Fusnes Wrecsam. A minnau'n Ddeon cyfleuster newydd sbon ym Mhrifysgol Wrecsam, rwy'n falch o arwain ein taith o drawsnewid tuag at sicrhau statws byd-eang. Gan alinio gyda Gweledigaeth a Strategaeth 2030 Prifysgol Wrecsam, cenhadaeth Ysgol Fusnes Wrecsam yw darparu addysg ragorol, gynhwysol, sydd wedi'i halinio'n broffesiynol, ac i feithrin ei henw da drwy bartneriaethau, traweffaith, rhagoriaeth, a gwelededd. Mae hyn yn atgyfnerthu gwerthoedd yr ysgol fusnes ac yn cryfhau ei hymrwymiad i dwf dinesig, rhanbarthol ac yn y diwydiant, gan yrru ymchwil ac arloesi ac adfywio economaidd sy'n cael effaith.

Rwy'n anhygoel o gyffrous ynghylch y dyfodol ar gyfer y sefydliad unigryw a flaengar yma. Ym mis Ionawr 2025, bu i'r Is-ganghellor, Yr Athro Joe Yates lansio strategaeth newydd uchelgeisiol sy'n sail i'n hymrwymiad i ragoriaeth, cynhwysiant a chydweithredu, ac sy'n adeiladu ar ein newid enw yn ddiweddar a'n hunaniaeth brand sydd wedi'i adnewyddu. Ein huchelgais yw ymestyn ein campws ffisegol a digidol a'r hyn sydd o'i amgylch sy'n trawsnewid drwy ein strategaeth Datblygiadau Campws nodedig.

Mae Prifysgol Wrecsam wedi ymgymryd â datblygiad a newid sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf yma ac mae'n cael ei gydnabod fel sefydliad angor arweiniol yn Wrecsam a gogledd Cymru sydd ag ymrwymiad dilys i gynhwysiant a thrawsnewid.

Fel prifysgol, mae gennym ymrwymiad cryf i ehangu cyfranogiad yn lleol a chyrhaeddiad byd-eang uchelgeisiol - gan groesawu miloedd o fyfyrwyr rhyngwladol bob blwyddyn, i'n campysau yng ngogledd Cymru yn ogystal â thrwy bartneriaethau TNE. Rydym yn falch o'r enw da sydd gennym yn rhoi profiad y myfyriwr wrth galon popeth a wnawn, fel y dangoswyd yng nghanlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr a chyflawniadau ar gyfer dysgu o ansawdd uchel. Mae ein hymrwymiad i'n gwaith cenhadaeth ddinesig yn arloesol ac yn torri tir newydd, gyda'n dull o wneud hynny'n cael ei gydnabod yn eang fel bod yn un sy'n arwain y sector.

Mae hwn yn amser cyffrous yn y ddinas, ac rydym yn cydnabod bod ein prifysgol yn chwarae rhan bwysig yn datblygu a gwasanaethu ein rhanbarth, ochr yn ochr â Chymru fel gwlad, a'n safle yn y byd. Mae yna fwrlwm i'w deimlo o amgylch y lle gyda chynlluniau datblygu isadeiledd uchelgeisiol ar gyfer Wrecsam, ymgysylltu cymunedol cryf a brwd o amgylch y cais i fod yn Ddinas Diwylliant y DU yn 2029 ac Eisteddfod 2025 yn ogystal â'r sylw byd-eang o amgylch y datblygiadau hysbys gyda Chlwb Pêl-droed Wrecsam.

Mae Porth Busnes Wrecsam yn fenter strategol gan y brifysgol, sydd wedi'i bwriadu ar gyfer cysylltu busnesau gydag arbenigedd, ymchwil a thalent y Brifysgol. Dyma'r bont rhwng y brifysgol a diwydiant, ac Ysgol Fusnes Wrecsam. Fel cyfadran academaidd, rydym yn darparu rhaglenni israddedig, ôl-raddedig a phroffesiynol gyda ffocws strategol ar ddatblygiad rhanbarthol, entrepreneuriaeth, menter a thwf.

Rydym yn chwilio am unigolyn nodedig a darlithydd ysbrydoledig, i ddod ar y daith hon gyda ni a chwarae rhan ganolog yn y tîm wrth lunio dyfodol Ysgol Fusnes Wrecsam. Rydym yn ymfalchïo ein bod yn gweithio mewn partneriaeth weithredol gyda diwydiant, y sector gyhoeddus a'n cymunedau er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.  Rwy'n awyddus i glywed pa gyfraniadau y gallwch chi eu gwneud i Ysgol Fusnes Wrecsam fydd yn atgyfnerthu ei safle fel sefydliad angor. Gan weithio gyda dysgwyr, cydweithwyr, partneriaid, arweinwyr dinesig ac ymgysylltu gyda ffigyrau o fewn y diwydiant, bydd y rôl hon yn ceisio cydbwyso'r hyn sy'n hysbys gyda'r hyn sy'n anhysbys, wrth i ddata ac arloesi barhau i drawsnewid busnesau a diwydiannau mewn ffyrdd nad ydym eto'n ei wybod.

Rwy'n falch o arwain ysgol fusnes sy'n edrych tua'r dyfodol, sy'n uchelgeisiol, ac sydd wedi ymrwymo i greu traweffaith bositif ar genedlaethau presennol a'r dyfodol.

Os ydych chi'n academydd cynhwysol sy'n ysbrydoli, gyda'r brwdfrydedd, y gwerthoedd a'r uchelgais i ymgymryd â'r rôl bwysig hon, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

**Dr Ruth Slater**

**Deon Ysgol Fusnes Wrecsam**



# Cefndir Prifysgol Wrecsam

O hanes cyfoethog i ddyfodol disglair i addysg yng ngogledd Cymru - mae Prifysgol Wrecsam yn rhoi sylw personol i ddysgu a dyfodol pob myfyriwr.

## Ein Hanes

Mae ein henw hanesyddol yn cyfeirio at yr ysgolhaig a'r arwr Owain Glyndŵr, ac rydym yn hyrwyddo'r un athroniaethau ag ef.

Mae ei ysbryd wrth galon Prifysgol Wrecsam, lle rydym yn anelu i fod yn feiddgar, yn entrepreneuraidd ac yn agored i bawb ym mhopeth a wnawn.

Rydym wedi bod yn darparu addysgu ar ein prif gampws yn Wrecsam ers 1887, pan roeddem yn cael ein hadnabod fel Ysgol y Gwyddorau a'r Celfyddydau Wrecsam. Dechreuom gynnig graddau union 100 mlynedd yn ôl ac rydym wedi dod yn bell iawn ers hynny.

Daethom yn Sefydliad Technegol Sir Ddinbych ym 1927 a symud i Stryt y Rhaglaw, sydd bellach yn gartref i'n cyrsiau celf a dylunio. Wrth i'r Sefydliad a'r galw am gyrsiau dyfu, dechreuwyd ar ddatblygu'r hyn sydd bellach yn brif gampws i ni, Plas Coch, a sefydlwyd Coleg Technegol Sir Ddinbych yn 1939.

Syr Patrick Abercrombie, y pensaer enwog o Lerpwl a Dulyn oedd yn gyfrifol am ddyluniad mewnol y Coleg, a ymddangosodd yn nifer o gylchgronau Pensaernïol ar ddechrau'r 1950au. Cafodd Peggy Angus ei chomisiynu i ddylunio teils ar gyfer y prif gyntedd. Roedd y rhain yn unigryw i'r Coleg gan gynrychioli llif dysgu gyda chefndir Cymreig. Mae'r teils yma yn parhau i fod yn eu lle heddiw ac wedi eu gwarchod o dan restriad Gradd II.

Yna, penderfynwyd uno tri phrif goleg Sir Clwyd: Coleg Technegol Sir Ddinbych, Coleg Addysg Cartrefle yn Wrecsam a Choleg Kelsterton yng Nghei Connah, Glannau Dyfrdwy.

Daeth Sefydliad Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWI) a grëwyd drwy hynny yn un o'r colegau mwyaf o'i fath ym Mhrydain, gyda thros 9,000 o fyfyrwyr a chyllideb flynyddol o £5 miliwn ym 1975.

Tyfodd y Coleg o ran nifer y myfyrwyr ac enw da wrth i alw mawr am ei arbenigedd ddatblygu led-led y byd.

Yn 2008, enillodd NEWI statws prifysgol a chafodd Prifysgol Glyndŵr ei eni. Yn 2023, rhoddwyd caniatâd i'r Cyfrin Gyngor fabwysiadu ein henw cyfredol Prifysgol Wrecsam/Wrexham University, gan nodi ein cysylltiad cryf gyda lleoliad ein prif gampws a gallu cyfathrebu hyn yn fwy eglur i fyfyrwyr a rhanddeiliaid.

# Gweledigaeth Newydd: Arweinyddiaeth Newydd

Yn dilyn ymddeoliad ein His-ganghellor blaenorol a'n Dirprwy Is-ganghellor yn symud i rôl Is-ganghellor yn rhywle arall, dechreuodd Prifysgol Wrecsam chwilio am ymgeiswyr ar gyfer y ddwy swydd yn ystod 2023/24. Ymunodd yr Athro Joe Yates, cyn Is-ganghellor Cynorthwyol Cyfadran y Celfyddydau, Astudiaethau Proffesiynol a Chymdeithasol ac Is-ganghellor Cynorthwyol Lleoedd a Phartneriaethau ym Mhrifysgol John Moores Lerpwl fel ein His-ganghellor, a'r Athro Paul Davies, cyn-Ddeon Cyfadran Cyfrifidadura, Peirianneg a'r Gwyddorau ym Mhrifysgol De Cymru fel ein Dirprwy Is-ganghellor. Mae'r Athro Yates, gan weithio gyda'n Bwrdd a'n tîm arweinyddiaeth ehangach wedi datblygu gwelediagaeth o'r newydd a Strategaeth Wrecsam 2030 newydd. Mae ein gweledigaeth ar y cyd yn dymuno i'r Brifysgol fod yn brifysgol ddinesig, fodern, flaenllaw, sy'n ymgysylltu'n rhanbarthol ac yn fyd-eang, gan ddarparu sgiliau ac ymchwil ddylanwadol sy'n hybu twf economaidd ac arloesedd er lles y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r weledigaeth hon yn cael ei chefnogi gan ein 5 gwerth craidd o Ragoriaeth, Cynhwysiant, Cydweithrediad, Trawsnewidiad, a Chynaliadwyedd.

# Proffil y Brifysgol

Mae gan y Brifysgol oddeutu 10,000 o fyfyrwyr ar draws portffolio amrywiol. Mae ychydig dros hanner ein myfyrwyr wedi'u lleoli'n bennaf ar y campws, sy'n cynnwys myfyrwyr o'r DU a myfyrwyr rhyngwladol, ar raglenni israddedig amser llawn yn ogystal â rhaglenni ôl-raddedig neu ar raddau



ymchwil. Mae myfyrwyr prentisiaeth gradd mewn Cyfrifiadura a Pheirianneg a myfyrwyr rhan amser ar draws ystod pwnc ehangach hefyd wedi ymrestru ac yn treulio peth o'u hamser ar y campws. Yn fras, daw tua dau draean o'n myfyrwyr o'r DU o'n hardal uniongyrchol, h.y. gogledd Cymru a rhannau o Sir Gaer a Sir Amwythig. Mae gweddill y myfyrwyr naill ai'n astudio'n llwyr ar-lein drwy ein llwybrau MBA a MSc hyblyg neu gyda cholegau partner yn fyd-eang ac yn y DU.

Mae myfyrwyr gyda'n partneriaid rhyngwladol, sydd wedi'u gwasgaru ar draws gwledydd Asiaidd yn ogystal ag Affrica a'r Gorllewin Canol, wedi bod yn tyfu'n sylweddol o ran niferoedd wrth i ni ymestyn ein portffolio addysg trawsnewidiol (TNE). Bu i'r llwybrau trosglwyddiad esmwyth gyda phartneriaid yn yr UE mewn meysydd arbenigol Peirianneg megis Ynni Adnewyddadwy barhau i ddenu carafanau hyfyw o fyfyrwyr. Roedd partneriaethau addysgol yn cynnig darpariaeth masnachfraint neu wedi'i dilysu yn y DU yn cynnwys colegau Addysg Bellach Gogledd Cymru, a phartneriaid ar draws y DU. Yn unol gyda'n hymrwymiad i ragoriaeth mae prosesau cydnerth yn eu lle ar gyfer diwydrwydd dyladwy cynigion partneriaeth newydd ac ar gyfer goruchwylio ansawdd a safonau ac academaidd sy'n cael eu darparu gan sefydliadau partner yn y DU a thramor. Mae'r Brifysgol yn aelod gweithgar o rwydweithiau perthnasol yn y sector ac adolygiadau gwledydd TNE sy'n cael eu harwain gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch.

# Ysgol Fusnes Wrecsam a'r Porth Busnes

Mae Prifysgol Wrecsam ac Ysgol Fusnes Wrecsam yn gweithio ar brosiect sylweddol i adeiladu a gweithredu adeilad Porth Busnes ar gampws Wrecsam sydd wedi'i ariannu gan gyrff allanol a'r Brifysgol. Bydd y Porth Busnes yn sianel rhwng diwydiant rhanbarthol ac ysgol fusnes y brifysgol a bydd yn gam newydd yn ein cynnig. Rydym mewn sefyllfa unigryw o beidio bod ag unrhyw ddyled a thra bod ein sefyllfa o ariannol yn bositif, nid ydym yn rhydd o'r heriau mae'r sector yn eu hwynebu yng Nghymru a'r DU fel ei gilydd. Mae'r cynnig busnes yn rhan allweddol o'n strategaeth i fod yn brifysgol ddinesig fodern flaenllaw, sy'n ymgysylltu'n rhanbarthol ac yn fyd-eang, gan ddarparu sgiliau ac ymchwil dylanwadol sy'n hybu twf economaidd ac arloesedd er lles y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.



# Tuag at 2030 - Gweledigaeth a strategaeth Brifysgol Wrecsam

Gan adeiladu ar sylfaen gref sy'n cael ei darparu drwy ein Gweledigaeth a Strategaeth hyd at 2025, yn ogystal ag ailenwi ac ailfrandio'r Brifysgol, aethom ati i lansio ein Gwerthoedd Gweledigaeth a Strategaeth newydd hyd 2030 yn gynharach eleni. Mae'r strategaeth newydd yn sail i'n gweledigaeth i fod yn brifysgol ddinesig fodern flaenllaw, sy'n ymgysylltu'n rhanbarthol ac yn fyd-eang, gan ddarparu sgiliau ac ymchwil dylanwadol sy'n hybu twf economaidd ac arloesedd er lles y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Yn ganolog i bwy rydym ni mae ein hymrwymiad i wella ein pobl a'n cymunedau, gan godi dyheadau a deilliannau, gwarchod a diogelu hanes a thraddodiadau ein rhanbarth a hyrwyddo a chefnogi iaith a diwylliant Cymru yn weithredol.



## Mae ein nodau strategol wedi'u canoli o amgylch:

**Ein Profiadau a Chyfleoedd i Fyfyrwyr:** Profiad sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr rhagorol, sy'n creu cyfleoedd sy'n ysbrydoli a galluogi i'r holl fyfyrwyr ddod yn raddedigion hyderus, cyflogadwy sy'n cael effaith bositif ar eu cymdeithas.

**Ein Pobl, Llefydd a Phartneriaethau:** Bod yn Brifysgol sy'n angor arweiniol ar gyfer Cymru sydd wedi'i gwreiddio'n lleol ac sy'n ymgysylltu'n fyd-eang. Prifysgol sy'n gwrando, yn ymgysylltu ac yn adlewyrchu'r hyn sy'n cyfrif fwyaf i'n pobl, i'n llefydd a'n partneriaid.

**Ein Hymchwil a Menter:** Rhagoriaeth o ran ansawdd, perthnasedd ac effeithiau ein gwaith ymchwil a menter ryngddisgyblaethol, gan gyflawni arloesedd a thrawsnewidiad llwyddiannus.

# Ymchwil sy'n creu Traweffaith

Yn unol â'n strategaeth Ymchwil, mae ein hymchwil yn cyfrannu'n positif at ddatblygiad economaidd, cymdeithasol a diwylliannol gogledd Cymru a thu hwnt.

Mae Prifysgol Wrecsam yn hwb ymchwil ac arloesi newydd sy'n datblygu'n gyflym ac sy'n parhau i ddatblygu ein hymchwilwyr a'n diwylliant ymchwil. Rydym wedi llofnodi'r Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr, gan ddynodi ein hymrwymiad i helpu ein hymchwilwyr i fod y gorau y gallant, a chynyddu ein capasiti ar gyfer creu traweffaith byd-eang gyda'r cyfoeth o arbenigedd sydd yma.

O dan Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021, barnwyd bod Peirianneg gyda 9% o allbynnau a 4* (sy'n arwain y byd), a bu i Waith Cymdeithasol a Pholisi Cymdeithasol, a oedd yn faes REF newydd i'r brifysgol gyflawni astudiaeth achos 4*. Cafodd y ddau faes hefyd ganrannau sylweddol y tybiwyd eu bod ar lefel 3* (yn rhagorol yn rhyngwladol). Cyflawnodd Celf a Dylunio 50% ar 3* ac yn ddiweddar enillodd gyllid ESRC sylweddol ar gyfer ei brosiect 'Dinasyddion Ecolegol'. Mae'r Brifysgol yn ceisio sicrhau ei hawl ei hun i Ddyfarnu Graddau Ymchwil ei hun ac mae'r broses adolygu gan banel adolygiad cyfoedion QAA annibynnol yn digwydd ar hyn o bryd.

**Ein prif nodau:**

- **Bod â'r Hawl i Ddyfarnu Graddau Ymchwil.** Mae hyn wedi symud yn ei flaen drwy gyflwyno dogfennaeth i'r QAA a chynnal ymweliadau panel QAA ac arsylwadau.
- **Datblygu capasiti a gallu ymchwil y brifysgol drwy ddatblygu ei staff.** Mae hyn yn seiliedig ar feini prawf recriwtio ar gyfer staff academaidd sy'n gofyn am iddynt fod wedi cymhwyso at lefel PhD ac i staff atodol sicrhau doethuriaethau proffesiynol a pharhau i fod yn weithredol o ran ymchwil. Mae buddsoddiad wedi bod mewn system gwybodaeth ymchwil sy'n cefnogi ceisiadau ymchwil ac sy'n coladu data.
- **Tyfu'r gymuned ymchwil Ôl-raddedig.** Mae hyn yn cael ei gefnogi drwy amrywiol ddigwyddiadau ymchwilwyr gyrfa gynnar megis 'Tŷ Agored'.
- **Cynyddu'r nifer o gydweithrediadau ymchwil diwydiannol academaidd gweithredol.** Mae'r timau yn y Swyddfa Ymchwil a'r Swyddfa Menter yn gweithio'n agos gyda'i gilydd er mwyn diogelu a datblygu prosiectau ymchwil agos i'r farchnad. Er enghraifft, fe wnaeth Glyndwr Innovations Ltd, sydd wedi'i leoli ar Gampws Optig Llaneurgain, oruchwylio prosiect Canolfan Arbenigedd Ffotoneg £6m a ariannwyd gan WEFO a derbyniodd ganmoliaeth uchel gan y diwydiant a'r llywodraeth.
- **Tyfu allbynnau ac incwm sy'n gysylltiedig gydag ymchwil.** Mae incwm o ymchwil wedi dangos adferiad sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf yma. Bu i'r ariannu QR oedd yn gysylltiedig gydag allbynnau REF mewn Peirianneg, Gwaith Cymdeithasol a Pholisi Cymdeithasol a'r Celfyddydau ddarparu incwm llinell sylfaen, ond mae Ariannu gan y Cyngor Ymchwil sydd wedi'i ddyfarnu'n gystadleuol yn awr yn mynd ymhell y tu hwnt i hyn.

Cafodd ariannu gan yr AHRC ac UKRI, ar gyfer prosiectau'r Celfyddydau a Pheirianneg, ei ennill mewn partneriaeth gyda phrifysgolion eraill gan gynnwys Caergrawnt, Caerdydd, Bryste a Southampton.

- **Cynyddu gwelededd, traweffaith a gwerth ein hymchwil.** Wedi'i gefnogi gan y Swyddfa Ymchwil, cynigir y gyfres o ddarlithoedd cyhoeddus 'Sgyrsiau Wrecsam'. Mae'r rhain yn cynnwys pynciau sy'n bwysig o fewn cymdeithas megis newid hinsawdd, atebolrwydd o fewn y system cyfiawnder i'r ifanc a rhaglenni adsefydlu ar gyfer cleifion cardiaidd.

# Canolfannau Ymchwil

Mae ein canolfannau ymchwil cyfredol wedi'u nodi isod. Fodd bynnag, rydym yn y broses o adolygu ein huchelgeisiau yn y maes hwn er mwyn sicrhau bod gennym y strwythurau cywir i gyflawni yn erbyn ein hagenda ymchwil ac arloesi uchelgeisiol.

**Cyfiawnder:** Cafodd y **Sefydliad Ymchwil Cynhwysiant Cymdeithasol** ei sefydlu ym Mhrifysgol Wrecsam ar ddechrau 2022. Mae'n gymuned ymchwil yng Nghyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd sy'n anelu i feithrin cydweithrediadau rhwng academyddion, darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth (rhyngddisgyblaethol, lleol, cenedlaethol a rhyngwladol) er mwyn ymgymryd ag ymchwil o safon uchel, ymateb i gyfleoedd ariannu, a datblygu ceisiadau grant er mwyn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol.

Sefydlwyd y **Ganolfan Ymchwil a Hyfforddiant Uwch Gyfansoddion** yn 2010 o ganlyniad i bartneriaeth rhwng Prifysgol Wrecsam, Airbus a Llywodraeth Cymru. Mae'r Ganolfan yn cael ei hadleoli mewn cyfleuster Ymchwil Peirianneg newydd o'r radd flaenaf yn 2025, wedi'i ariannu gan Gynllun Twf Gogledd Cymru.

Mae gan Optig Llaneurgain enw da am arwain drwy'r Grŵp Systemau Optegol Tra-chywir, gyda phartneriaethau cryf rhwng y byd academaidd a diwydiant. Mae cwmnïau cleientiaid yn cynnwys Airbus a Thales; gyda phartneriaid academaidd yn cynnwys prifysgolion ar draws Cymru a Lloegr. Wedi'u cefnogi gan ein Swyddfa Menter a chan weithio'n agos gydag academyddion, mae nifer cynyddol o Bartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth gyda diwydiant lleol mewn meysydd megis pecynnau hyfforddiant realiti rhithwir a thechnolegau sy'n cefnogi cerbydau awyr di-griw. Mae'r incwm cyfunol o amrywiol edeifion Ymchwil ac Arloesi wedi tyfu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Brifysgol yn aelod gweithredol o Rwydwaith Arloesi Cymru (WIN) sy'n dyrannu cyllid sbarduno ac sy'n cydweithio gyda Chymdeithas Ddysgedig Cymru.

# Addysg Drawsffurfiadol a Phrofiad y Myfyriwr

Mae ein portffolio academaidd yn cwmpasu pedwar parth, gan gynrychioli meysydd sydd o gryfder nodedig: Iechyd a'r Gwyddorau Cymdeithasol; Gwyddoniaeth, Technoleg a Pheirianneg; Busnes; a'r Diwydiannau Creadigol. O fewn y meysydd bras hyn, mae yna bynciau arbenigol sy'n cael eu cydnabod ar draws y DU ar gyfer eu hansawdd dysgu nodedig neu eu hymchwil, megis Cyfiawnder Troseddol, Therapi Galwedigaethol a Pheirianneg Opteg. Mae gan ein holl raglenni ffocws ar gyflogadwyedd a chydnabyddiaeth broffesiynol. Mae cyfleodd drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu cynnig i'n holl staff a myfyrwyr ac mae rhai rhaglenni yn cynnwys modiwlau Cymraeg, sydd yn bennaf yn targedu meysydd pwnc sy'n ymwneud â lleoliadau cyhoeddus yn y rhanbarth. Mae'r mentrau hyn yn cael eu cefnogi gan Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Roedd y Brifysgol yn falch o ennill cytundeb 10 mlynedd ar gyfer darparu cyrsiau Iechyd Perthynol a Nyrsio wedi'u comisiynu ar hyd a lled gogledd Cymru yn 2022. Prif ysgogwyr y cais oedd yr angen am wella deilliannau iechyd yn ein rhanbarth drwy feysydd pwnc ychwanegol a lleoliadau myfyrwyr o fewn lleoliadau gofal iechyd yn lleol, a chreu cyfleoedd dysgu rhyng-broffesiynol. Rydym yn cynnal rhaglenni Prentisiaethau Gradd mewn Peirianneg a TG, gan weithio'n agos gyda chyflogwyr lleol. Mae'r Ysgol Fusnes wedi profi twf sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd cynnydd mewn myfyrwyr rhyngwladol a'r cynnydd mewn trefniadau partneriaeth addysg drawsffurfiadol.

Mae ein His-ganghellor newydd wedi rhoi adolygiad portffolio ar waith a fydd yn sicrhau bod y Brifysgol mewn sefyllfa i fodloni anghenion sgiliau ein rhanbarth.



Mae'r Brifysgol yn nodedig am ei hanes cadarn mewn cynhwysiant cymdeithasol a chanlyniadau Arolwg Cenedlaethol i Fyfyrwyr sy'n arwain y sector. Cawsom ein henwi ymhlith y pump uchaf yng Nghymru a Lloegr ar gyfer boddhad myfyrwyr gan y Complete University Guide (2025), oherwydd ein canlyniadau oedd yn arwain y sector gan yr Arolwg Cenedlaethol i Fyfyrwyr ar gyfer ansawdd dysgu (90%), adborth ar asesu (87%) a chefnogaeth academaidd (87%). Yn ogystal, mae'r Brifysgol wedi'i chydnabod gan Advance HE drwy Wobr Gydweithredol aruchel ar gyfer Rhagoriaeth Dysgu (CATE) ar gyfer ein hanes gwych o fewn arloesi addysgol a sefydlu diwylliant cryf ar gyfer cydweithredu. **Mae rhai cyflawniadau nodedig ar gyfer ansawdd dysgu yn y tablau cynghrair diweddaraf yn cynnwys:** • Ar y brig yng Nghymru a phedwerydd yn y DU - Times and The Sunday Times Good University Guide 2025 • Ar y Brig yng Nghymru ac yn y 10 uchaf yn y DU - Guardian University Guide 2025 • Yr ail yng Nghymru ac yn y 10 uchaf yn y DU – Daily Mail University Guide 2025 **Rydym wedi cyflawni cyfres gref o ganlyniadau yn y meysydd pwnc canlynol: • Troseddeg** – wedi'n gosod ar y brig yn y DU ar gyfer ansawdd dysgu a phrofiad y myfyriwr, yn ogystal ag ar y brig yn gyffredinol yng Nghymru ac yn y 10 uchaf yn y DU. **• Nyrsio** – ar y brig yn y DU ar gyfer ansawdd dysgu a phrofiad y myfyriwr - a chydradd gyntaf yn y DU ar gyfer rhagolygon i raddedigion. Yn gyffredinol, roedd y pwnc wedi dod ar y brig yng Nghymru ac yn bumed yn y DU. **• Pynciau Iechyd Perthynol*** – wedi'u gosod yn gyntaf yng Nghymru – ac yn y 10 uchaf yn y DU – ar gyfer ansawdd dysgu ac ar y cyd yn y Du ar gyfer rhagolygon graddedigion. **• Gwaith Cymdeithasol** – wedi'i osod yn gyntaf yng Nghymru ar gyfer ansawdd dysgu. Rydym yn falch o fod wedi cael ein cydnabod fel bod ar y brig yng Nghymru a Lloegr am gynhwysiant cymdeithasol yn y Times and Sunday Times Good University Guide. Mae'r tabl cynghrair cynhwysiant cymdeithasol yn seiliedig ar gyfran y myfyrwyr o ystod o wahanol gefndiroedd, sydd fel arfer yn llai cynrychioladol mewn addysg uwch - er enghraifft, myfyrwyr hŷn, myfyrwyr gydag anableddau sydd wedi'u datgan a'r cyntaf yn y teulu i fynd i brifysgol. Mae ein Hundeb Myfyrwyr hefyd wedi perfformio'n well na'r sector a chafodd ei osod yn gyntaf yng Nghymru ar gyfer 'llais y myfyriwr' am y tro cyntaf yn ei hanes. Mae uwch dîm arweinyddiaeth y Brifysgol yn gweithio'n agos gydag Undeb y Myfyrwyr fel partneriaid, gan ddod â llais y myfyriwr i bob lefel o'r sefydliad. Ar y cyd â'n hôl troed rhyngwladol sy'n tyfu, mae Undeb y Myfyrwyr wedi ymateb yn dda drwy fodelau cynrychioli myfyrwyr priodol er mwyn adlewyrchu proffil newydd y Brifysgol, gan weithio gyda chyd-fyfyrwyr ar draws amrywiol foddau a llwybrau cyflawni. **Cefnogi dysgu** Wedi'i wreiddio yn ein gwerthoedd mae ein Fframwaith Dysgu Gweithredol (ALF), sy'n berthnasol i'r portffolio academaidd llawn gyda ffocws ar gyflogadwyedd, cydnabyddiaeth broffesiynol a darpariaeth gynhwysol. Mae ALF yn cefnogi dysgu hyblyg sy'n gwneud y defnydd gorau o ofodau ar y campws ynghyd â chyfleoedd dysgu sydd wedi'u galluogi'n ddigidol, wedi'u dylunio i gael eu cyrchu unrhyw bryd, ac unrhyw le fel y mae'n briodol. Rydym wedi ailddychmygu sut rydym yn astudio a sut rydym yn gweithio yn y blynyddoedd diwethaf - ond mae ein gwerthoedd a'n hymrwymiad i gymuned y brifysgol, ein rhanbarth a thu hwnt yn parhau. Mae staff academaidd a staff gwasanaethau proffesiynol yn gweithio'n eithriadol o galed i gefnogi ein myfyrwyr a sicrhau eu bod yn cael profiad da.

# Yr Ysgol Fusnes

Yn unol â'n gweledigaeth i fod yn brifysgol ddinesig fodern sy'n arwain y byd erbyn 2030 mae Prifysgol Wrecsam yn bwriadu sefydlu Ysgol Fusnes Wrecsam newydd arloesol. Byddai'r ysgol hon yn hyb ar gyfer addysg, ymchwil a rhwydweithio, gan baratoi myfyrwyr ar gyfer rolau arweinyddiaeth yn y byd busnes.

Rydym yn Brifysgol fach sydd wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth ac sy'n fodlon meddwl yn wahanol er mwyn darparu arloesi er mwyn cynyddu'r traweffaith sydd gennym o fewn ein cymuned.

Byddai Ysgol Fusnes Wrecsam yn ased cymunedol ac yn beiriant grymus ar gyfer entrepreneuriaeth, twf economaidd ac arloesi yn y sector gyhoeddus. Wedi'i gynllunio i fod yn ysgol fusnes ymgysylltiol, gyhoeddus, sy'n rhoi pwyslais ar brofiadau dysgu ymarferol a byd go iawn, sydd wedi'i alinio i anghenion y busnes a'r sector cyhoeddus yng ngogledd Cymru a rhanbarth Merswy Dyfrdwy. Rydym ni'n ystyried Ysgol Fusnes Wrecsam fel un sydd wedi ymgysylltu'n ddinesig - wedi'i gwreiddio'n lleol ond sydd â byd-olwg eang.

Drwy ei rhaglenni portffolio sy'n arwain y sector, ei hymchwil ac arloesi, ei chanolfan ar gyfer entrepreneuriaeth a'i model clinig busnes allblyg, byddai'n gweithredu fel peiriant sy'n gyrru twf economaidd ac arloesi yng ngogledd Cymru.

Mae gan Brifysgol Wrecsam hanes balch o gynhwysiant - gan ddod ar y brig yn y DU am 7 mlynedd - ar gyfer y ganran o fyfyrwyr sydd wedi'u recriwtio o gefndiroedd nad ydynt yn draddodiadol yn mynd i mewn i Addysg Uwch. Byddai Ysgol Fusnes Wrecsam wedi'i dylunio i ddatblygu sgiliau a fyddai'n agor mynediad at addysg, busnes ac addysg entrepreneuriaeth o'r radd flaenaf ar gyfer y gymuned - sy'n gyrru twf cynhwysol.

Drwy bartneriaethau lleol a byd-eang, byddai Ysgol Fusnes Wrecsam yn cyflwyno cyfleoedd a phosibiliadau newydd i Wrecsam. Byddai'n cynhyrchu cenhedlaeth newydd o arweinwyr ac entrepreneuriaid busnes fyddai'n trawsffurfio'r economi yng ngogledd-ddwyrain Cymru.

Mae gan ein Strategaeth Wrecsam 2030 ffocws ar ddysgu a chymhwyso gwaith go iawn. Byddai Ysgol Fusnes Wrecsam yn canolbwyntio ar ddysgu yn y byd go iawn - gan sicrhau bod myfyrwyr yn cymryd rhan weithredol yn datrys problemau busnes cyfredol, a'u cysylltu gyda diwydiannau a meithrin cyd-berthnasoedd gyda rhanddeiliaid allanol. Tra ein bod wedi'n gwreiddio'n lleol - mae ein huchelgais yn fyd-eang - gan ddefnyddio rhwydweithiau - drwy bartneriaethau i agor cyfres newydd o gyfleoedd i'n cymuned.



Byddai Ysgol Fusnes Wrecsam, dwy ei phortffolio, yn cynhyrchu graddedigion sydd wedi'u paratoi'n dda nid yn unig i ddelio gyda heriau'r byd busnes a'r heriau sy'n wynebu arweinyddiaeth sector gyhoeddus ond hefyd i yrru arloesi sy'n gyfrifol yn gymdeithasol.

Wrth ei wraidd - byddai'n darparu cysylltiad cryf rhwng dysgu academaidd a'r byd busnes drwy

**Alinio** gydag anghenion presennol yr economi leol, a'r anghenion yn y dyfodol. Gwneud yn siŵr ein bod yn ymateb i anghenion sgiliau presennol, a rhai'r dyfodol a'u bod yn gweithredu fel cyfrwng sy'n galluogi twf.

**Gweithio mewn partneriaeth gyda diwydiant:** Cydweithredu gyda busnesau a sefydliadau yn lleol, ac yn fyd-eang, er mwyn cynnig interniaethau i fyfyrwyr, astudiaethau achos byw, neu brosiectau ymgynghori, gan roi profiad ymarferol iddynt.

**Ymwneud y Gymuned:** Ymgysylltu'n weithredol gyda chymunedau lleol, rhanbarthol neu fyd-eang, drwy gyfleoedd gwirfoddoli, prosiectau traweffaith cymdeithasol a mentrau sy'n cyfrannu at arferion busnes cynaliadwy a chyfrifol.

**Cyfleoedd i Rwydweithio:** Meithrin perthnasoedd gyda chyn-fyfyrwyr, entrepreneuriaid ac arweinwyr busnes er mwyn darparu myfyrwyr gyda mentoriaeth, cyfleoedd gwaith a sylwadau craff o'r diwydiant.

**Dysgu Drwy Brofiad o'r Byd Go Iawn:** Annog myfyrwyr i gymhwyso gwybodaeth o'r ystafell ddosbarth i senarios o'r byd go iawn, megis drwy efelychiadau busnes, rhaglenni trochi byd-eang neu fentrau entrepreneuraidd.

# Campws 2030

Rhan hanfodol o brofiad y myfyriwr yw cynnig adeiladau campws, cyfleusterau a seilwaith digidol rhagorol, sy'n sail i'n hathroniaeth addysgiadol ac sy'n cyflwyno gweledigaeth eglur i'r parthau academaidd hynny lle rydym yn arddangos cryfder. Mae ein cynlluniau datblygu newydd Campws 2030 yn canolbwyntio ar greu amgylcheddau ffisegol diogel a chymhellol ac amgylcheddau digidol sy'n cefnogi addysgu a dysgu, ymchwil a chydweithrediadau rhagorol, gan drawsnewid ein campysau i fod yn lleoliadau sy'n arwain y ffordd i'n cymunedau.

O dan ein strategaeth Campws 2025, rydym eisoes wedi gwneud buddsoddiadau er mwyn uwchraddio cyfleusterau a datblygu gofodau o'r radd flaenaf, gofodau sydd wedi'u gwella gan dechnoleg, gan sicrhau bod y Brifysgol yn parhau i gadw a denu talent. Bu i'r Brifysgol bwrcasu blociau llety i fyfyrwyr wedi'u hadeiladu'n bwrpasol ochr yn ochr â'r campws yn 2018. Mae'r prif brosiectau a gwblhawyd dros y tair blynedd academaidd ddiwethaf wedi cynnwys gofodau efelychu clinigol ar gyfer ein niferoedd cynyddol o fyfyrwyr Nyrsio ac Iechyd Perthynol, Labordai Bio-Wyddoniaeth, gofodau astudio cymdeithasol, efelychiad o Lys ar gyfer ein myfyrwyr Busnes a'r Gyfraith, Siop Gelf a Chaffi yn adeilad yr Ysgol Gelf sydd ar gael i'r cyhoedd a chyfleusterau chwaraeon wedi'u huwchraddio. Yn ogystal, dyfarnwyd £12m i'r Brifysgol o Fargen Twf Gogledd Cymru tuag at adeiladau Cyfleuster newydd sbon, y Ganolfan Peirianneg ac Opteg Menter sydd yn fod i gael ei hagor yn ffurfiol ym mis Medi a bydd yn adnodd hanfodol ar gyfer y sector gweithgynhyrchu arloesi yng ngogledd Cymru.

Yn ddiweddar, rydym wedi cwblhau trawsnewid adeilad nad oedd yn cael ei ddefnyddio lawer ar y campws yn Academi Arloesi Seiber (CIA), wedi'i ariannu'n rhannol gan Ddiogelwch Seiber Cymru.

Mae'r Academi Arloesi Seiber yn darparu gwasanaethau hyfforddi i'n myfyrwyr ein hunain ac i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn ein rhanbarth. Drwy waredu safleoedd nad oes mo'u hangen yn ddoeth, rydym wedi ariannu'r Ardal Arloesi Addysg Iechyd (HEIQ) £10m sy'n gartref i dros 1000 o fyfyrwyr Nyrsio ac Iechyd Perthynol yn gyfan gwbl.

Wrth i ni symud ymlaen gyda'n strategaeth Campws 2030 newydd uchelgeisiol, bydd y Brifysgol yn ymgymryd ag asesiad ystadau a seilwaith digidol strategol ac yn datblygu rhaglen o brosiectau buddsoddi ffisegol a digidol er mwyn cefnogi cynlluniau twf y brifysgol a chynaliadwyedd ariannol yn yr hirdymor. Bydd yna hefyd ffocws cryf ar effeithiolrwydd busnes a thrawsnewid drwy ddatblygu a mabwysiadu gofodau arloesol sydd wedi'u hintegreiddio'n dda, a gofodau, datrysiadau a gwasanaethau cysylltiedig sydd wedi'u halinio gyda'n portffolio academaidd a blaenoriaethau twf masnachol.

Bydd gan yr holl fuddsoddiad o dan Campws 2030 gysylltiad cryf ag anghenion yr economi rhanbarthol a'r gymuned ehangach ac mae partneriaethau, gan gynnwys cyrff gwasanaethau cyhoeddus, adrannau'r llywodraeth a'r sector preifat yn sail iddo. Un prosiect cyffrous sy'n cael ei archwilio ar hyn o bryd ochr yn ochr â'n hysgol fusnes newydd a'u portffolio academaidd diwygiedig, yw datblygu Porth Busnes, ofod fydd yn gweithredu fel pont rhwng Prifysgol Wrecsam a Diwydiant lleol, gan feithrin cydweithrediad, arloesi, creu swyddi a thwf economaidd yn y rhanbarth.




Bydd y Porth Busnes yn gartref i unedau angor allweddol megis yr Hyb Entrepreneur, fydd yn cynnig gofodau gweithio cydweithredol ar gyfer unigolion, busnesau newydd, BBaCh a chyflogwyr er mwyn datblygu a rhannu sgiliau a syniadau busnes: Labordy Bloomberg a Data fydd yn darparu diwydiant gyda mynediad at derfynellau Bloomberg, system ariannol fyd-eang, ac adnoddau cysylltiedig eraill: a labordy AI fydd yn cefnogi mentrau ymgysylltu dinesig a helpu diwydiant i fabwysiadu datrysiadau AI ar gyfer gwell effeithlonrwydd ac arloesi.

Mae diweddariadau a buddsoddiadau newydd hefyd yn digwydd ar draws ein pedwar safle prifysgol: y prif gampws yn Wrecsam, yr Ysgol Gelf a Dylunio yn Wrecsam, y campws astudiaethau

anifeiliaid yn Llaneurgain ac OpTIC Llaneurgain, sy'n gyfleuster Ymchwil ac Arloesi pwrpasol, ac sydd bellach hefyd yn gartref i garfan o fyfyrwyr Nyrsio o'r ardal.

Wrth i ni ddechrau ar ein taith Campws 2030, sy'n ymddangos fel pe bai am drawsnewid ein seilwaith ystadau a seilwaith digidol yn unol â'n huchelgeisiau academaidd, mae hwn yn amser cyffrous i ymuno gyda'r brifysgol a bod yn rhan o dîm fydd yn helpu i lunio a gwneud yn fawr o'n campysau fel eu bod yn amgylcheddau modern, arbrofol sy'n gyfoethog yn ddigidol er mwyn cefnogi ein myfyrwyr, ein staff a'n cymunedau.

# Ymgysylltiad a Thraweffaith Dinesig

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid a chymunedau er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol er lles y cyhoedd ledled gogledd Cymru – gan hwyluso newid system gyfan gadarnhaol drwy ddeall yr heriau allweddol a chyd-greu ein dull gweithredu ledled gogledd Cymru.

Mae pobl a lle wrth galon ein cenhadaeth ddinesig. Ar y cyd, drwy sgwrsio gydag arweinwyr, rydym wedi adnabod bod problem greiddiol nifer o heriau a blaenoriaethau'r rhanbarth ar gyfer gweithredu yn gysylltiedig gydag anghydraddoldeb cymdeithasol. Dyma'r hyn rydym ni ei eisiau er mwyn mynd i'r afael â hyn, drwy feithrin diwylliant o weithio fel system gyfan ar draws gwasanaethau cyhoeddus, gyrru mentrau newydd er mwyn meithrin gwytnwch cymunedol yn y rhanbarthol, ac annog byw'n iach. Mae ein gwaith ymgysylltu dinesig wedi ei gydnabod gan arianwyr, ac rydym wedi diogelu adnoddau sylweddol ar gyfer gwaith arloesi o amgylch rhagnodi cymdeithasol a chodi uchelgais yn ein cymuned o dan y prosiect Prifysgol y Plant.

Mae'r heriau rydym ni i gyd yn eu hwynebu yn newid yn gyson. Dyw ein cenhadaeth ddinesig ddim yn segur, a bydd ein sgyrsiau yn parhau i lunio ein dull a'n prosiectau. Fel prifysgol, rydym eisiau bod yn rym cadarnhaol ar gyfer newid. Fel rhan o'n Strategaeth Ymgysylltu Dinesig, rydym yn rhedeg Partneriaeth Mewnwelediad Gogledd Cymru er mwyn datblygu asesiadau llesiant ar gyfer y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae darparu'r genhadaeth ddinesig mewn partneriaeth yn ein darparu gyda chyfle cyffrous i ymgymryd ag ymchwil sy'n trawsnewid, gan gysylltu ein timau academaidd i'n partneriaid, gan weithio gyda'i gilydd ar brosiectau sy'n berthnasol o ran polisi a



phrosiectau ymchwil cymwysedig, gan osod myfyrwyr mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn, eu helpu i fod yn sail i addysgu, a chefnogi ein timau academaidd er mwyn cymryd rhan mewn ymchwil gweithredol sy'n gysylltiedig gyda'r genhadaeth ddinesig.

Mae partneriaid allanol yn hanfodol ar gyfer sicrhau perthnasedd a sylweddoli gwerth y brifysgol o ran gyrru llwyddiannau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y brifysgol. Mae hyn yn gwneud y brifysgol yn un o'r 'Arweinwyr Lle' yn ein cymuned, gan ehangu ein partneriaethau, bod yn sail i fudd cymdeithasol a darparu cyfleoedd dinasyddiaeth rhagweithiol i fyfyrwyr a staff sy'n cael traweffaith gwirioneddol.

# Y Dirwedd Ehangach

Mae Prifysgol Wrecsam yn rhan o'r sector prifysgol yng Nghymru, sy'n cynnwys wyth prifysgol sy'n dod o dan gylch gorchwyl datganoledig llawn Llywodraeth Cymru. Yn 2024, symudodd y trosolwg rheolaethol i'r Comisiwn dros Addysg Drydyddol ac Ymchwil - Medr - sy'n gweithredu hyd braich o'r Llywodraeth gan oruchwylio'r holl addysg drydyddol ôl-16 ar draws Cymru. Mae Medr yn gweithredu o dan fframwaith o 11 'dyletswydd strategol' sy'n cael eu goruchwylio gan Lywodraeth Cymru. Mae'r dyletswyddau strategol yma yn cwmpasu busnes craidd addysg ac ymchwil, ond mae hefyd yn adlewyrchu agweddau pwysig o'r diwylliant ac ethos o fewn Cymru, megis ystyriaeth i genedlaethau'r dyfodol, cydweithredu, cyfle cyfartal a'r Gymraeg.

Mae Prifysgol Wrecsam hefyd yn aelod o Brifysgolion Cymru; llwyfan y sector sy'n gysylltiedig gydag Universities UK. Mae amrywiol elfennau eraill o seilwaith AU ar hyd a lled y DU yn parhau i fod yn berthnasol er gwaethaf datganoli, megis Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS), yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA), Cod Ansawdd DU gwirfoddol a'r system Arholwr Allanol.



O fewn y rhanbarth, mae'r Brifysgol yn aelod gweithredol o fforymau busnes traws ffiniol megis Cynghrair Merswy-Dyfrdwy a Siambr Fasnach Gogledd Cymru a Gorllewin Swydd Gaer. Mae hefyd yn bartner ac yn fuddiolwr Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. O fewn Wrecsam, roedd y Brifysgol yn aelod sylfaenol y Bartneriaeth Porth Wrecsam sydd â'r nod o gydlynu a buddsoddi ar y cyd yn adfywio'r ardal y mae'r prif gampws wedi'i leoli ynddi. Mae aelodau eraill

yn cynnwys Llywodraeth Cymru, yr awdurdod lleol a Thrafnidiaeth Cymru. Mae Clwb Pêl-droed Wrecsam, cymydog agosaf y Brifysgol, yn rhanddeiliad allweddol ac yn elfen hanfodol o gynlluniau buddsoddi yn y dyfodol.

Gan weithio gyda'r Is-ganghellor Cynorthwyol Ymgysylltu a Phartneriaethau Allanol, disgwylir i Ddeon Ysgol Fusnes Wrecsam chwarae rhan allweddol yn cyflwyno a dyrchafu'r sefydliad o fewn y sector a fforymau rhanbarthol a dylanwadu ar eu cyfeiriad strategol. Mewn cyd-destun sy'n newid yn sydyn, gan gynnwys ffurfio corff rheolaethol newydd ar gyfer y sector trydyddol yng Nghymru sydd â'r nod o ddatblygu darpariaeth gydlynol, mae yna gyfleoedd cyffrous i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid a ffurfio cynghreiriau newydd.

# Dinas Wrecsam

Os ydych chi'n ymuno gyda Phrifysgol Wrecsam, byddwch yn cael y gorau o'r ddau fyd - bywyd yn y ddinas a'r awyr agored.

Rydym wedi'n lleoli yn gyfleus iawn ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, sy'n berffaith ar gyfer cael mynediad hawdd at ddinasoedd Caer, Lerpwl a Manceinion gerllaw, i'r dwyrain, harddwch garw Eryri i'r Gorllewin, a'r traethau gwych ar hyd arfordir trawiadol i'r gogledd.

Mae Wrecsam ei hun yn llawn treftadaeth, gyda golygfeydd hardd a nifer o safleoedd hanesyddol, yn ogystal â chanol y ddinas brysur gyda chyfleoedd siopa gwych, a sîn ddiwylliant ac adloniant sy'n ffynnu, a bywyd nos bywiog.

Wedi'i leoli ychydig oddi ar yr A483, mae gennym gysylltiadau gwych i'r holl brif ffyrdd yn y gogledd-orllewin, yn ogystal â rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus eang gyda gwasanaethau uniongyrchol i Gaer, Caergybi ac Arfordir Gogledd Cymru, Lerpwl, yr Amwythig, Birmingham a Chaerdydd. Gallwch hefyd fod yn Llundain mewn ychydig dros ddwy awr a hanner, Caeredin mewn ychydig dros bedair awr, a Dulyn, gyda fferi mewn llai na phum awr.

Yn ddiweddar, llwyddodd Wrecsam i sicrhau statws dinas, ac mae'n cael ei hun yn gynyddol ar y map byd-eang oherwydd llwyddiannau proffil uchel y tîm pêl-droed lleol, wedi iddo gael ei brynu gan enwogion adnabyddus Hollywood. Mae yna nifer o ddatblygiadau cyffrous yn Wrecsam a'r rhanbarth ehangach sy'n dod ag adfywio a buddsoddiad newydd i'n cymunedau, gyda'r Brifysgol fel partner allweddol.




# Sut mae'r Brifysgol wedi'i Threfnu

Mae ein dysgwyr a staff wedi'u lleoli yng ngogledd-ddwyrain Cymru ar draws tri champws yn Wrecsam (ein prif gampws), Llaneurgain a Llanelwy.

Mae ein hysgolion ac adrannau academaidd wedi'u trefnu'n ddwy gyfadran, Cyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd a Chyfadran y Celfyddydau, Cyfrifiadura a Pheirianneg, ac Ysgol Fusnes Wrecsam, gyda Deon yn bennaeth ar bob un. Mae gweithrediadau a gweithgareddau'r Brifysgol yn cael eu cefnogi gan dimau sy'n gyfrifol i aelodau o'r tîm arweinyddiaeth hŷn, wedi'u dosbarthu yn ein Hadrannau Gwasanaethau Proffesiynol, ein cyfadrannau a'n hadrannau academaidd.

## Bwrdd y Llywodraethwyr

Bwrdd y Llywodraethwyr yw ein corff llywodraethol, gyda chyfrifoldeb cyffredinol dros weithgareddau'r Brifysgol. Mae 20 aelod o'r Bwrdd, gyda'r mwyafrif ohonynt yn aelodau annibynnol. Mae'r Brifysgol yn cael ei llywodraethu gan Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu ac fel y manylir yn ei Ddatganiad o Brif Gyfrifoldebau, Bwrdd y Llywodraethwyr yw prif awdurdod cyfreithiol, ariannol a busnes y Brifysgol yn ogystal â

bod yn awdurdod cyflogedig ar gyfer ei holl staff. Mae gofyn i'r Bwrdd yn benodol i benderfynu ar gymeriad addysgiadol a chenhadaeth y Brifysgol ac i osod ei chyfeiriad strategol cyffredinol. Mae'r Is-ganghellor yn aelod llawn o'r Bwrdd (ex-officio) af yn Brif Weithredwr y Brifysgol, ac o'r herwydd mae'n gyfrifol am wneud cynigion i'r Bwrdd nghylch cymeriad addysgol a chenhadaeth y Brifysgol.

## Y Bwrdd Academaidd

Yn ddibynnol ar gyfrifoldeb cyffredinol y Bwrdd a chyfrifoldebau'r Is-Ganghellor, mae'r Bwrdd Academaidd yn gyfrifol am faterion cyffredinol sy'n gysylltiedig gydag ymchwil, ysgolheictod, dysgu a chyrsiau a gynigir gan y Brifysgol. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrwydd ansawdd academaidd a gwelliant a chynghori'r Is-ganghellor a'r Bwrdd Llywodraethwyr ar y materion hyn.

## Tîm Gweithredol yr Is-ganghellor

Mae'r Is-ganghellor yn gyfrifol am weithredu penderfyniadau'r Bwrdd, datblygu strategaeth, yn ogystal â threfniadaeth, cyfeiriad a rheolaeth y Brifysgol ac arweinyddiaeth ei staff. Maent yn ymgymryd â'r swydd hon gyda chefnogaeth Tîm Gweithredol yr Is-ganghellor.

Mae Tîm Gweithredol yr Is-ganghellor wedi ymrwymo'n llawn i ddarparu'r weledigaeth a'r strategaeth ar gyfer Prifysgol Wrecsam, ynghyd â'u timau eu hunain.

**Is-ganghellor.**

**Dirprwy Is-ganghellor*** sy'n darparu arweinyddiaeth academaidd yn unol â darparu Cynllun Strategol y Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb dros ddatblygiad, cynllunio, perfformiad a phroses dyrannu adnoddau portffolio'r Brifysgol. Mae'r rôl hon hefyd yn rheoli'r Deoniaid.

**Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol Ymchwil*** sy'n gyfrifol am ddatblygu Strategaethau Ymchwil y Brifysgol ac am sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

**Dirprwy Is-ganghellor Ymgysylltu Allanol a Phartneriaethau*** sy'n gyfrifol am recriwtio myfyrwyr rhyngwladol, ymgysylltu menter a phartneriaethau addysgol ac ymchwil gan gynnwys TNE.

**Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid*** sy'n gyfrifol am reolaeth ariannol y Brifysgol a chefnogi cynllunio a dadansoddi data'r Brifysgol.

**Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau*** sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth uniongyrchol ar gyfer ffwythiannau gwasanaeth proffesiynol allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys rheoli Ystadau a Champws (gan gynnwys Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd), Gwasanaethau Gwybodaeth (gan gynnwys TG a'r Llyfrgell), a Bywyd Myfyriwr a Champws (gan gynnwys Cynhwysiant, Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, a Chymorth Myfyrwyr).

**Cyfarwyddwr Gweithredol AD*** Mae'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau Dynol yn cefnogi amcanion strategol y Brifysgol drwy ddarparu arweinyddiaeth strategol ynghylch ystod o feysydd i reolwyr a staff.

Mae'r VCRT wedi'i gefnogi gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (SLT) yn gyfrifol am ofynion gweithredol y strategaeth o fewn y timau academaidd a gwasanaeth proffesiynol.

# Cydraddoldeb a Chynhwysiant

Mae ein Prifysgol wedi ymrwymo i gefnogi, datblygu a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn ei harferion a'i gweithgareddau. Rydym yn ceisio sefydlu diwylliant cynhwysol sy'n rhydd o wahaniaethu, yn seiliedig ar werthoedd urddas a pharch.

Rydym wedi ymrwymo'n llawn i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a chefnogi'r gymysgedd amrywiol o unigolion sy'n rhannu ein cymuned ddysgu. Yn unol â'n gwerthoedd craidd o fod yn Hygyrch, yn Gefnogol, yn Arloesol ac yn Uchelgeisiol, rydym yn gweithio tuag at ein nod o ddarparu amgylchedd lle mae pawb yn cael ei gefnogi a'i alluogi ac yn adlewyrchu hyn drwy'r dull holistig sydd gennym o weithio tuag at gynhwysiant.

Rydym wedi ymrwymo i wella cydraddoldeb ar sail oedran, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rywiol, hunaniaeth rhywiol, hil, crefydd a chred (gan gynnwys diffyg cred), priodas a phartneriaethau dinesig a beichiogrwydd a mamolaeth. Rydym yn cydnabod bod ein cymuned wedi'i chyfoethogi gydag amrywiaeth eang o gefndiroedd, credoau a diwylliannau. Mae'r Brifysgol wedi dechrau ar broses er mwyn sicrhau'r Siarter Cydraddoldeb Hil.

Rydym yn rhoi o'n gorau er mwyn sicrhau bod myfyrwyr, staff ac ymwelwyr yn gallu dysgu, gweithio a defnyddio ein gofodau cymdeithasol mewn amgylchedd sy'n gyfan gwbl gynhwysol, gan arddangos bod cydraddoldeb yn cyfrif i'n cymuned gyfan.

Mae ein Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer staff a myfyrwyr yn berthnasol i holl gymuned y Brifysgol. Yn gysylltiedig â hyn, nod Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol 2020-2024 yw darparu strategaeth a chynllun gweithredu sy'n adlewyrchu anghenion ein hamrywiol randdeiliaid.

# Cynaliadwyedd

Bwriad Prifysgol Wrecsam yw hyrwyddo cymunedau cynaliadwy, gwasanaethau a defnyddio adnoddau ffisegol. O dan ein strategaeth 'Tuag at Sero Net', rydym eisoes

wedi rhoi lleihad mewn allyriadau carbon ar waith o dros 50% ers 2010 ac rydym wrthi'n cyflwyno defnydd trydan o ffynonellau adnewyddol fesul cam. Mae ailgylchu gwastraff a lleihau plastigau untro yn symud ymlaen yn gyflym.

Rydym ymysg y traean uchaf o brifysgolion Prydain ar gyfer ein perfformiad yng Nghynghrair Prifysgol y Bobl a'r Blaned sy'n cael mynediad at fetrigau allweddol megis lleihau carbon a lleihau'r defnydd o ddŵr. Mae'r Adeilad Diwydiannau Creadigol ar y prif gampws wedi ennill gwobr Cymdeithas Ddinesig Ardal Wrecsam ar gyfer cynaliadwyedd, cydnabod ei nodweddion pensaernïol a defnydd o ddŵr llwyd. Yn ddiweddar, dyfarnwyd rhagoriaeth i Undeb y Myfyrwyr Prifysgol Wrecsam o dan y cynllun Gwobrau Traweffaith Gwyrdd.

Gan gefnogi ein trawsnewid i fod yn garbon isel, gwnaed cynnydd ar astudiaeth gwres a ariannwyd gan Adran y DU ar gyfer Ynni, Diogelwch a Sero Net. Mae ariannu HEFCW hefyd wedi galluogi gwell cefnogaeth myfyrwyr er enghraifft gydag iechyd a lles. Mae'r ymyriadau hyn wedi helpu i greu amgylchedd dysgu cynaliadwy sydd â llawer o adnoddau.